

Canllaw Rhif 3 i Ddefnyddwyr

Canllaw i Ddechreuwr i Ymchwilio i Hanes eich Teulu

SUT YDW I'N CYCHWYN?

- Os oes modd, ceisiwch ddarganfod dyddiadau genedigaethau, priodasau a marwolaethau aelodau eich teulu, ac ym mha ardal roedden nhw'n byw. Efallai y gallwch gael gfael ar yr wybodaeth yma ym mhapurau'r teulu, fel tystysgrifau geni/marw/priodi, neu gofnodion fel Beibl y teulu.
- Holwch aelodau'r teulu a oes ganddyn nhw unrhyw atgofion, ffotograffau neu ddogfennau a allai eich helpu i ymchwilio i hanes eich teulu.
- Gwnewch nodiadau clir, cryno o ddyddiadau a llefydd i'ch helpu wrth i chi ymchwilio.
- Tynnwch lun o'ch coeden deulu yn dangos y berthynas rhwng aelodau'r teulu ac yn nodi dyddiadau a manau geni, priodi a marw, os ydych yn eu gwybod.
- Mae'n haws o lawer ac yn fwy effeithlon gweithio'n ôl o ffaith hysbys, yn hytrach na cheisio ymchwilio ymlaen mewn amser.
- Os mai dechrau hel achau ydych, mae'n syniad da darllen am y pwnc cyn ymweld â'r Archifdy. Mae llyfrau ar hanes teuluol neu hel achau ar gael yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd lleol. Gallech hefyd edrych ar wefan y BBC: www.bbc.co.uk/familyhistory sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth wych ynglŷn â sut i ddechrau arni.
- Efallai yr hoffech ymuno â grŵp hel achau lleol, fel Cymdeithas Hanes Teuluoedd Clwyd (www.clwydfhs.org.uk) i gael cyngor a chefnogaeth.

Unwaith i chi gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am eich hynafiaid o Sir y Fflint, a darllen rhywfaint o ddeunydd sy'n dweud wrthyfych sut i fynd ati i ymchwilio i'r pwnc, dylech drefnu apwyntiad yn yr Archifdy i weld y cofnodion. **Nodwch mai cofnodion gwreiddiol ar gyfer Sir y Fflint sydd gennym yn bennaf.** Os oedd eich cyndeidiau yn byw neu'n gweithio mewn sir arall, bydd angen i chi gysylltu â'r Archifdy perthnasol ar gyfer y sir honno.

PA FATH O GOFNODION SYDD GAN ARCHIFDY SIR Y FFLINT AR GYFER HANESWYR TEULU?

Dyma ddisgrifiad byr o rai o'r ffynonellau a gedwir yn Archifdy Sir y Fflint y gellir eu defnyddio i ymchwilio i hanes y teulu. Mae gennym hefyd **Ganllawiau Ffynhonnell** ar wahân sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am yr hyn y mae rhai o'r ffynonellau hyn yn ei gynnwys, a sut y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth. **Nodwch** fod mynediad wedi'i gyfyngu i rai o'r cofnodion (wedi'i nodi), gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif o dan y **Ddeddf Diogelu Data**. Yn yr achosion yma, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd i weld y cofnodion, neu i rywun chwilio ar eich rhan i gael gfael ar yr wybodaeth berthnasol. Holwch aelod o staff am fanylion pellach am hyn.

COFRESTRAU PLWYF

Cofnodion bedyddiadau, priodasau a chladdedigau sydd wedi digwydd yn eglwys y plwyf yw cofrestrau plwyf. Maen nhw'n ffynonellau amhrisiadwy ar gyfer ymchwilio i

hanes eich teulu. Mae gennym gofrestrau plwyfi Sir y Fflint a rhai o blwyfi Sir Ddinbych ar ficroffilm, felly bydd angen i chi archebu darlennydd microffilm i weld y rhain. Mae gennym hefyd drawsgrifiadau defnyddiol o rai cofrestrau plwyf, a luniwyd gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Clwyd, sy'n cynnwys mynegeion yn nhrefn yr wyddor. Gall y rhain olygu ei bod yn cymryd cryn dipyn yn llai o amser i chi chwilio am deulu neu unigolyn. Nodwch fod cofrestrau plwyf yn cofnodi bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau, a'u bod yn wahanol i gofrestrau sifil genedigaethau, priodasau a marwolaethau. **NID ydym yn cadw tystysgrifau geni, priodi a marw yn Archifdy Sir y Fflint.** Mae'r rhain yn cael eu cadw'n genedlaethol gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, ac yn lleol gan Swyddfa'r Cofrestrydd Rhanbarthol.

COFNODION PLWYF (AR WAHÂN I GOFRESTRAU)

Mae llawer o gofnodion plwyf, ar wahân i gofrestrau plwyf, yn ddefnyddiol i'r hanesydd teuluol. Mae gennym gofnodion ar gyfer y rhan fwyaf o blwyfi Sir y Fflint (Cyf: P/), er bod lleoliad y cofnodion yma'n dibynnu ar ffiniau eglwysig yn hytrach na ffiniau awdurdod lleol, felly holwch aelod o staff i wneud yn siŵr fod cofnodion y plwyf y mae gennych ddiddordeb ynddo yn cael eu cadw yma. Gall cofnodion gynnwys cyfrifon goruchwylwyr y tlodion, gorchmynion anheddiad ac ymfudiad, cytundebau prentisiaeth, cofnodion elusennol, cofnodion tir llan a'r degwm, cynlluniau mynwentydd ac ati.

COFNODION ANGHYDFFURFIOL

Cofnodion eglwysi neu gapeli anghyddfurfiol yw cofnodion anghyddfurfiol ac maent yn cynnwys cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau. Aelodau o fudiad crefyddol fel capel oedd anghyddfurfwr, a oedd ar wahân i'r Eglwys sefydledig, h.y. yr Eglwys yng Nghymru. Roeddent yn cael eu hadnabod fel 'Sentars'. Roedd sawl enwad gwahanol o eglwysi anghyddfurfiol, yn cynnwys y Crynwyr, y Methodistiaid, Annibynwyr, Annibynnol, Presbyteriaid a Bedyddwyr. Mae gennym gofrestrau anghyddfurfiol ar gyfer amrywiol eglwysi a chapeli yn Archifdy Sir y Fflint. Nid oes raid i gapeli anghyddfurfiol gadw eu cofnodion mewn Archifdy yn ôl y gyfraith, felly nid oes gennym gofnodion ar gyfer pob capel. Efallai fod rhai cofnodion i'w cael o hyd yn y capel ei hun, ond efallai fod eraill mewn dwylo preifat.

COFNODION PABYDDOL

Nid oes gennym lawer o gofnodion Pabyddol yn Archifdy Sir y Fflint. Eglwysi Pabyddol sy'n cadw cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn bennaf, ond dim ond o ganol y 19eg ganrif y mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn dyddio. Treffynnon yw'r eithriad i hyn, gan fod cofrestrau'r dref honno, sy'n ymdrin â rhan helaeth o Sir y Fflint a Sir Ddinbych, yn cychwyn yn 1730. Mae copi o'r cofrestrau yma, 1730-1829, ar gael (Cyf: NT/459). Mae gennym hefyd rai cofrestrau bedyddiadau Pabyddol diweddarach, hyd at 1860, ar gyfer Treffynnon (cyfres anghyflawn), a chofrestr fedydd o Eglwys Babyddol yr Wyddgrug, 1852-1855 (Cyf: RC/).

ARYSGRIFAU COFFAOL

Mae gan yr Archifdy fynegeion i arysgrifau coffaol yn rhai o blwyfi Sir y Fflint, ar silffoedd agored yn yr ystafell ymchwil. Trawsgrifiadau o'r arysgrifau ar gerrig beddi a chofebion mewn mynwentydd yw'r rhain. Yn aml iawn mae'r mynegeion yn nhrefn yr wyddor sy'n golygu bod angen cryn dipyn yn llai o amser i chwilio am enw unigolyn neu deulu. Weithiau maen nhw'n cynnwys cynllun o'r fynwent, yn dangos lleoliad y cerrig beddi, a all fod yn amhrisiadwy i haneswyr teulu. Mae cerrig beddi a chofebion

yn aml yn rhoi gwybodaeth fel enw'r ymadawedig, lle'r oedd yn byw, ei oed pan fu farw, a'i berthynas â'r teulu, megis 'Gwraig' neu 'Tad' a all fod yn ddefnyddiol dros ben i'r rhai sy'n ymchwilio i hanes y teulu.

Y CYFRIFIAD

Cofnodion o'r bobl oedd yn byw ar bob aelwyd ym Mhrydain yw'r cyfrifiad. Cynhaliwyd cyfrifiad bob 10 mlynedd ers 1801 ond nid oedd enwau yn cael eu nodi tan 1841. Ni chynhaliwyd cyfrifiad ym 1941, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae holl gofnodion y cyfrifiad yn cael eu celu am 100 mlynedd, ac ar hyn o bryd dim ond ffurflenni ar gyfer 1841-1901 y gallwch eu gweld (bydd cyfrifiad 1911 i'w weld yn 2011 er bod mynegai ar gael ar-lein yn awr). Gall y cyfrifiad ddarparu gwybodaeth am y berthynas rhwng aelodau'r teulu; eu hoed a lle cawsant eu geni; y gellir ei defnyddio ochr yn ochr â chofrestrau plwyf i ddod o hyd i fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau.

EWYLLYSIAU A COFNODION PROFiant

Dogfennau cyfreithiol yw ewyllysiau a thestamentau, sy'n cofnodi dymuniadau unigolyn o ran ei eiddo, ar ôl iddo farw. Profiant yw'r broses o benodi ysgutor(iaid) ewyllys i weinyddu ystâd yr ymadawedig. Dim ond os yw'r ystâd yn eithaf sylweddol y mae angen hyn, ac efallai na fydd unrhyw gofnodion profiant ar gyfer pobl a fu farw gan adael dim ond ychydig o eiddo, neu ddim eiddo. Mae llawer o ewyllysiau Sir y Fflint yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Erbyn hyn mae dros 190,000 o ewyllysiau Cymreig wedi cael eu trosi i ddigidol ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol: www.llgc.org.uk. Mae gennym rai ewyllysiau yn Archifdy Sir y Fflint, fodd bynnag, sef copïau sydd wedi cael eu cadw fel rhan o gasgliadau mwy yn bennaf, megis casgliadau ystâd. Gallant fod yn ddefnyddiol dros ben i haneswyr teulu gan eu bod yn gallu rhoi gwybodaeth am y berthynas rhwng aelodau'r teulu, eu galwedigaeth, eiddo a meddiannau'r teulu, a gallant hefyd nodi lle mae unigolyn wedi cael ei gladdu. Mae mynegai ar wahân i ewyllysiau ar silffoedd agored yn yr ystafell ymchwil.

COFRESTRAU ETHOLIADOL

Cofnodion sy'n cael eu llunio gan awdurdodau lleol yw cofrestrau etholiadol. Maen nhw'n rhestru'r bobl oedd â hawl i bleidleisio mewn etholiad, ar yr adeg y lluniwyd y gofrestr. Weithiau cânt eu galw'n rhestrau etholwyr/pleidleiswyr. Gellir defnyddio cofrestrau etholiadol i ddarganfod enwau etholwyr a lle'r oedden nhw'n byw. Efallai y gallwch ddod o hyd i unigolyn, ar yr amod fod gennych ryw syniad lle'r oedd yn byw. Gallwch hefyd wirio cyfeiriad arbennig i weld pwy oedd yn byw yno ar ryw adeg, er mai dim ond y trigolion oedd â hawl i bleidleisio fydd yn cael eu dangos ar y gofrestr, felly ni fydd yn cynnwys plant. Mae Archifdy Sir y Fflint yn cadw Cofrestrau Etholiadol ar gyfer y blynyddoedd 1912 - 2001, er bod bylchau yn y cofrestrau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, pan nad oedd cofrestrau yn cael eu cadw (nid oes gennym gofrestrau ar gyfer 1916-1917, na 1940-1944 yn gynnwysedig).

COFNODION CYFRAITH Y TLODION/ BWRDD GWARCHEIDWAID

Hyd nes y pasiwyd Deddf Newydd y Tlodion 1834, y plwyf oedd yn gyfrifol am ofalu am bobl dlawd. Câl goruchwylwyr di-dâl i'r tlodion eu penodi i weinyddu cymorth y plwyf, ac mae eu cofnodion i'w gweld ymysg cofnodion plwyf. Ar ôl 1834, ffurfiwyd Byrddau Gwarcheidwaid i fod yn gyfrifol am bobl dlawd. Ymysg y rhesymau pam y byddai angen cymorth ar bobl oedd henaint, salwch, anabled, diweithdra,

profedigaeth neu anffawd arall. Gall cofnodion Cyfraith y Tlodion fod yn ddefnyddiol iawn i bobl sydd â diddordeb mewn hanes teuluol.

PAPURAU YSTAD A THEULUOL

Mae gennym sawl casgliad o bapurau Ystad a Theuluol preifat yn Archifdy Sir y Fflint. Os oedd eich hynafiaid yn dirfeddianwyr mawr, mae'n bosib y bydd gennym gofnodion o'u hystâd. Efallai hefyd y bydd cofnod o bobl lai cefnog oedd yn gweithio ac yn byw ar ystadau mawr i'w gael yn y casgliadau yma. Mae llawer o gasgliadau'r ystadau mwy, fel casgliadau Ystad Penarlâg (Cyf: D/HA) ac Erddig (Cyf: D/E), hefyd wedi'u mynegeo yn ôl enw personol pobl sy'n ymddangos mewn amrywiol ddogfennau, megis rhenti, cyfrifon yr aelwyd, cofnodion gweision a morynion, a thrafodion cyfreithiol fel trawsgludo tir. Felly efallai y bydd yn werth edrych ar y mynegai i enwau personol yn yr ystafell ymchwil i weld a yw eich hynafiaid yn ymddangos yn unrhyw un o'r cofnodion yma.

CYFARWYDDIADURON MASNACH

Mae cyfres o gyfarwyddiaduron masnach o 1822-1936 (cyfres anghyflawn) i'w cael yn Archifdy Sir y Fflint. Trefnwyd y cyfarwyddiaduron yma yn ôl tref/pentref, ac maen nhw'n rhestru'r prif drigolion, trigolion preifat a masnachwyr megis tafarnwyr, gwerthwyr hetiau a theilwriaid. Maen nhw'n ddefnyddiol os oedd eich teulu yn ymwneud â masnach oherwydd gallant ddarparu enw ar gyfer y busnes a rhoi rhyw syniad o ba mor hir roeddent yn masnachu yn y cyfeiriad hwnnw. Efallai y bydd cyfeiriad preswlydd preifat 'o fodd annibynnol' hefyd wedi'i restru.

MAPIAU'R DEGWM

Lluniwyd mapiau o bob plwyf o dan Ddeddf Cyfnewid y Degwm 1836. Mae'r rhai gwreiddiol yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, gan mwyaf. Ceir copïau (ffotostatau yn bennaf) o rai Sir y Fflint yn Archifdy Sir y Fflint. Maen nhw'n dyddio rhwng 1839 a 1849 yn bennaf. Dangosir pob tir amaethyddol oedd yn gorfod talu'r degwm, ac mae'r rhaniad cyfatebol yn nodi enw'r perchennog a'r deiliaid, ac at ba bwrpas y defnyddiwyd y tir.

COFNODION YSGOL

Mae cofnodion cyn ysgolion Prydeinig, Cenedlaethol, Bwrdd a Chyngor wedi goroesi yn Archifdy Sir y Fflint. Gallant gynnwys cofrestrau derbyn o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn rhoi enwau a dyddiadau geni'r disgyblion, ac enwau a chyfeiriadau eu rhieni. Bydd llyfrau log, a gedwid gan brifathrawon ers 1862, yn aml yn rhoi gwybodaeth am ddisgybl unigol. Nodwch fod mynediad wedi'i gyfyngu i gofnodion sy'n llai na 100 oed, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif o dan y Ddeddf Diogelu Data.

COFNODION YSBYTAI

Gall cofnodion ysbytai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gynnwys cofrestrau derbyn a rhyddhau, a chofrestrau genedigaethau a marwolaethau. Nodwch fod mynediad wedi'i gyfyngu i gofnodion o dan 100 oed i blant a 75 oed i oedolion, os ydynt yn cynnwys manylion personol y cleifion, oherwydd gallent gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif o dan y Ddeddf Diogelu Data.

COFNODION TRETHIANT

Mae cymorthdaliadau lleyg a ffurflenni treth aelwyd, sy'n rhestru trigolion mwy cyfoethog pob trefgordd, yn yr Archifdy Cenedlaethol, ond mae copïau microffilm o Gymorthdaliadau Lleyg Sir y Fflint 1544-1628, a ffurflenni treth aelwyd 1666 a 1670 ar gael yn Archifdy Sir y Fflint.

PAPURAU NEWYDD

Mae papurau newydd lleol yn cynnwys llawer o ddeunydd sydd o ddiddordeb i'r hanesydd teulu, yn cynnwys rhestrau o enedigaethau, priodasau a marwolaethau. Gall ysgrifau coffau hefyd ymddangos mewn papurau newydd lleol. Mae amrywiaeth o bapurau newydd lleol yn dyddio'n ôl i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gael yn Archifdy Sir y Fflint, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael ar ficroffilm.

COFNODION LLONGWYR

Mae'r gyfres o Gofnodion Llongau, 1863-1913, a gedwir yn Archifdy Sir y Fflint, yn cynnwys rhestrau o griw llongau o borthladdoedd Sir y Fflint ar yr Afon Dyfrdwy. Mae mynegai i enwau personol y rhestrau criw, a mynegai o'r llongau, ar gael yn yr ystafell ymchwil.

COFNODION Y RHYFEL BYD CYNTAF

Mae mynegai gardiau, sy'n cael ei hadnabod fel y 'County of Flint War Memorial', yn cael ei chadw yn Archifdy Sir y Fflint (Cyf: D/DM/181). Mae'n cynnwys manylion dros 10,000 o ddynion o Sir y Fflint a wasanaethodd yn y lluoedd arfog. Mae'n nodi cyfeiriad, uned, rhif a rheng pob dyn, a gall gynnwys manylion pellach am wasanaeth megis lle'r oedd yn aros, anafiadau, a lle y'i claddwyd (os cafodd ei ladd).

COFNODION GLOWYR

Mae cofnodion y Undeb Cenedlaethol y Glowyr (D/NM) yn Archifdy Sir y Fflint yn cynnwys dros 3,000 o ffeiliau yn ymwneud ag iawndal i ddynion a anafwyd neu a laddwyd mewn pyllau glo lleol, 1930-1974. Mae'r rhain yn cynnwys manylion hanes bywyd y dynion dan sylw. Nodwch fod mynediad wedi'i gyfyngu i'r cofnodion yma os ydynt o dan 75 oed, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif o dan y Ddeddf Diogelu Data.

NODIADAU ACHYDDOL

Gellir dod o hyd i gyfeiriadau at achau ac ati, wedi'u trefnu yn ôl enw'r teulu yn y mynegai pwnc o ddau Achau.

MYNEGAI ENWAU PERSONOL

Mae mynegai yn nhrefn yr wyddor o enwau personol sy'n ymddangos mewn cofnodion gwreiddiol a chyfarwyddiaduron masnach ar gael yn yr ystafell ymchwil. Nid yw'n fynegai cwbl gynhwysfawr i bob eitem sydd gennym, ond gall fod yn lle defnyddiol i chi ddechrau chwilio.

ADNODDAU AR-LEIN

Mae yna lawer o wefannau sy'n ddefnyddiol i ymchwilyr i hanes teuluol. Mae Archifdy Sir y Fflint yn darparu cyfrifiaduron at ddibenion ymchwil. **Rhaid archebu lle ymlaen llaw i ddefnyddio cyfrifiadur.** Nodwch y bydd arnoch angen gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur gan fod prinder amser yn atal staff rhag ymchwilio ar-lein ar eich rhan. Ymysg rhai o'r safleoedd mwyaf poblogaidd a defnyddiol mae: Ancestry, y mae Archifdy Sir y Fflint yn tanysgrifio iddo; mynegeion genedigaethau, priodasau a

marwolaethau Gogledd Cymru a Swydd Gaer; Find My Past; Genuki (gwybodaeth achyddol ar gyfer y DU); a gwefan Archif Genedlaethol y DU. Bwriedir paratoi canllaw ar wahân i adnoddau hanes teuluol ar-lein, a bydd ar gael cyn bo hir.

Gwybodaeth Bellach:

Cyn ymweld ag Archifdy Sir y Fflint, fe'ch cyngorir i ddarllen ein 'Canllaw i Ddechreuwr ar Ymweld â'r Archifdy' (Canllaw Rhif 1 i Ddefnyddwyr). Mae'n rhoi cyngor ar sut i baratoi ymlaen llaw ar gyfer eich ymweliad, a'r hyn y dylech ddod gyda chi. Mae gennym hefyd 'Canllaw i Ddechreuwr ar Ddefnyddio'r Ystafell Ymchwil' (Canllaw Rhif 2 i Ddefnyddwyr), sy'n egluro'r hyn y dylech ei wneud pan fyddwch yn ymweld â'r Archifdy am y tro cyntaf. Bydd angen i chi drefnu apwyntiad i weld y cofnodion gan fod gennym system archebu. Cysylltwch â'r Archifdy os hoffech wybodaeth bellach neu i wneud apwyntiad. **Ffôn: 01244 532364** neu **e-bost: archives@flintshire.gov.uk**. Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan: **www.flintshire.gov.uk/archives**